

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 9fed 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Arwel Davies, Huw Charles, Jean Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler. c.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams a Geraint Davies. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwynfryn Williams am 6 mis oherwydd salwch.

Cydymdeimlwyd a theulu Tal y Bont, Parc yn dilyn eu profedigaeth o golli mab, gwr a thad mor annwyl iddynt. Gofynnwyd i'r cler anfon gair o gydymdeimlad i'r teulu ar ran y Cyngor.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Nodwyd y buddiannau gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

- i) Gwter Fedw Arian, Rhyduchaf – cafwyd cadarnhad fod y gwter wedi cael ei lanhau.
- ii) Ffos rhwng Ffridd Isa a chroesffordd Pentre – roedd trefniadau mewn lle i osod polion i rwystro cerbydau rhag mynd i'r ffos.
- iii) Ffordd o gyffordd Ffrydan i Lidiardau – roedd y gweithlu wedi llenwi'r tyllau yn y ffordd
- iv) Nodol, Arenig - roedd bwriad i ffosio ochr y ffordd ond nid oeddynt yn gallu bod yn gyfrifol am y dŵr a oedd yn dod i lawr 'r trac gerllaw.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft, CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Cymraeg.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Chopi o'r hysbyseb ynglŷn â'r bwriad i gau'r ffordd Rhyduchaf ar y 24/2/21.

c) Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

- i) Gwahoddiad i fod yn rhan o'r Panel sy'n Adolygu Fframwaith Taliadau Cyngorau Cymuned a Chynghorau Tref.
- ii) Adroddiad Blynyddol 2021/22. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau i'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y cler yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r cler (Ionawr i Fawrth)
- 2) CTHEM (TWE)
- 3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) - cymeradwywyd i'w dalu pan fyddai'r cler yn derbyn yr anfoneb.

c) Ceisiadau Ariannol.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

1) Cylch Meithrin Maesywaen	£150
2) Neuadd Y Parc	£150
3) Ysgol Bro Tryweryn	£150
4) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn	£75
5) Sioe Ardal Maesywaen	£50 (Huw Charles yn datgan buddiant)
6) CFFI Meirionnydd	£100
7) Hosbis Tŷ'r Eos	£50
8) Cantref	£25 (Gwynedd Jones yn datgan buddiant)
9) Macmillan	£25
10) Gofal Canser Tenevous	£25
11) Tŷ Gobaith	£25
12) Ambiwllans Awyr Cymru	£50

Cytunwyd i amnewid siec 2019-20 Ysgol Godre'r Berwyn (cyfraniad ariannol o £25) am un newydd gan ei fod wedi mynd allan o ddyddiad.

Oherwydd amgylchiadau Covid yn rhwystro gweithgareddau cymunedol, derbyniwyd y cynnig ein bod yn gohirio dyrannu'r gyllideb yn llwyr tan y flwyddyn ariannol nesaf ac ystyried unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y cyfarfod gan obeithio y bydd cyfle i ail afael mewn gweithgarwch cymunedol yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22. Cytunwyd fod arian digonol tu cefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl a all'i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r gwyn canlynol ymlaen i i'r adrannau perthnasol:-

- i) Gwteri rhiw Tŷ Cerrig, Parc angen eu clirio gan fod dŵr yn llifo lawr y ffordd.
- ii) Derbyniwyd cais gan Gyngor Cymuned Llanuwchllyn i dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd fod angen torri canghennau'r coed yn ôl rhwng arwydd y Bala (ochr Llanycil) a thref Y Bala er mwyn gwella gwelededd.

b) Amod Cynllunio 106.

Trafodwyd y rhwystrau oedd rhai yn ei wynebu wrth geisio cael morgais gan fod Amod 106 ynghlwm a'u cais i godi anedd newydd. Oherwydd y sefyllfa Covid roedd llai o fanciau/cymdeithasau adeiladu yn barod i gynnig morgeisiau.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 11eg am 8.00 y.h. drwy gyfrwng "Zoom".